

Dyddiad cyhoeddi: 6 Hydref 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

### Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

*“Allwch chi roi gwybod i mi beth fydd yn digwydd i'r eiddo ar hyd Maes y Ffion a Than y Bryn yn Llwydcoed, os bydd gwaith o adfer ac ailagor y rhwydwaith rheilffyrdd yn mynd rhagddo? Hefyd, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r cynlluniau presennol.”*

### Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Ar ôl cwblhau Achos Amlinellol Strategol (Canllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru Cam 1 'WelTAG'), mae TrC yn bwrw ymlaen ag Achos Busnes Amlinellol ('Cam 2 WelTAG') ar gyfer opsiynau Metro i ymestyn gwasanaethau teithwyr y tu hwnt i Aberdâr i Hirwaun drwy Llwydcoed. Nid oes cynlluniau alinio ar hyn o bryd, ond rhagwelir ar hyn o bryd y gellid defnyddio'r hen reilffordd cludo llwythi segur sy'n mynd i'r de o eiddo ar Faes y Ffion a Than y Bryn. Mae angen datblygu cynllun Cam 2 WelTAG ac arfarnu'r effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol. Byddai hyn wedyn yn cyfrannu at ymgynghoriad cyhoeddus ar y gwaith asesu a bydd ei ganfyddiadau'n cyfrannu at yr argymhellion ar yr opsiwn/opsiynau a ffafir i geisio cyllid ar gyfer ei gyflawni, a chynnydd tuag at hynny. Nid oes cytundeb ar yr amserlen ar gyfer hyn ar hyn o bryd, er ein bod yn amcangyfrif y bydd gwaith Cam 2 WelTAG wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2022, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn o fewn dau neu dri mis i hyn.

Nid yw adroddiad Cam 1 WelTAG wedi'i gyflwyno i Gabinet Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ac nid yw ar gael i'r cyhoedd. Gan nad oes cytundeb ar y ddogfen eto, mae'n parhau i fod ar ffurf drafft, ac mae wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu dan Adran 22 Deddf Rhyddid Gwybodaeth (Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol). Cewch ragor o wybodaeth am yr eithriad hwn [yma](#). Fel arfer, bydd adroddiadau WelTAG yn cael eu rhoi ar wefannau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol (yn yr achos hwn, Rhondda Cynon Taf).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

### **Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu [freedomofinformation@tfw.wales](mailto:freedomofinformation@tfw.wales). Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".